

CYNLLUN PRENTISIAETHAU CANLLAWIAU CAIS



CANLLAWIAU AR GYFER CYFLWYNO EICH CAIS

Diolch i chi am ddangos diddordeb i ymgeisio i fod yn brentis. Mae'n bwysig bod eich cais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd ac wedi ei gyflwyno'n gryno ac eglur. Dylech edrych yn ofalus ar yr wybodaeth sydd yn y *Pecyn Gwybodaeth Prentisiaethau*, y *Swydd Ddisgrifiad* a'r *Manylion Person* i sicrhau hyn.

Wrth gwblhau'r rhan **Gwybodaeth Bellach** yn eich *Cais am Swydd*, hoffem i chi ateb y cwestiynau isod, gan ddilyn y strwythur a'r canllawiau, a chadw at y nifer geiriau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r canlynol:

- **Eich sgiliau** – Yr hyn y gallwch ei wneud
- **Eich cryfderau** – Y sgiliau yr ydych yn eu gwneud orau
- **Eich profiadau** – Yr hyn yr ydych wedi'i wneud sy'n dangos eich sgiliau a'ch cryfderau

Gallwch ddefnyddio enghreifftiau o'ch cyflogaeth, ysgol, coleg, addysg, profiad gwaith, hobiau a gwaith gwirfoddol.

PWYNTIAU PWYSIG (y byddwn yn eu hystyried wrth lunio rhestr fer)

- Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn eich annog i gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg
- Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau isod yn fanteisiol i'ch cais
- Yn eich enghreifftiau, dylech fanylu ar beth wnaethoch chi a'r effaith a gafodd

ER GWYBODAETH

- Byddwn yn cysylltu â chi drwy'ch **FFONIO** os byddwch yn llwyddiannus.

CWESTIYNAU - EICH RÔL FEL PRENTIS

1. PAM YMGEISIO AR GYFER Y BRENTISIAETH YMA?

Eglurwch pam yr ydych yn ymgeisio am y brentisiaeth yma'n benodol. Cofiwch sôn am eich diddordeb yn y maes a pham fod y brentisiaeth yma'n apelio atoch chi.

Dim mwy na 200 o eiriau.

2. YMDDYGIAD AC AGWEDD BRIODOL

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi ymddwyn yn briodol a phroffesiynol neu ymateb yn bositif i sefyllfa anodd – e.e. dangos parch, agwedd bositif, cydweithio, ysgogi pobl, defnyddio iaith briodol.

Dim mwy na 200 o eiriau.

3. YMRWYMIAD I WAITH

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at ganlyniadau o werth wrth weithio ar dasg neu brosiect.

Dim mwy na 200 o eiriau.

4. CYFRANNU AT LWYDDIANT

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at lwyddiant prosiect neu ddigwyddiad.

Dim mwy na 200 o eiriau.

5. GWEITHIO FEL RHAN O DÎM

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos chi weithio yn effeithiol fel rhan o dîm.

Dim mwy na 200 o eiriau.

6. CYFATHREBU GYDA HYDER

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfathrebu'n hyderus ar lafar neu'n ysgrifenedig gydag unigolion neu grŵp.

Dim mwy na 200 o eiriau.

7. PARODRWYDD I DDYSGU

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos eich parodrwydd i ddysgu.

Dim mwy na 200 o eiriau.

8. DEALL BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR

Eglurwch pam eich bod eisiau gyrfa gyda'r Cyngor.

Dim mwy na 200 o eiriau.

CYNLLUN PRENTISIAETHAU CANLLAWIAU CAIS



GWYBODAETH YCHWANEGOL

Er gwybodaeth, noder bod y disgwyliadau canlynol yn berthnasol i bob swydd o fewn y Cyngor:

- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle
- Gweithredu yn unol â pholisiau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor.
- Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl troed carbon y Cyngor
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.